**EMA – School letter / parent email**

| English | Welsh |
|---|---|
| Dear Headteacher / School Business Manager,<br><br>We are getting in touch to share information and a digital flyer about the Education Maintenance Allowance (EMA), a Welsh Government scheme that provides £40 per week to help support students in their education.<br><br>EMA can make a real difference for students who want to continue their education into sixth form or college. It helps with essential costs such as travel, food, study materials, and day-to-day expenses that support their further education.<br>A student may be eligible for EMA if they are aged 16 to 18, living in Wales, studying at school or college, and meet the household income criteria.<br><br>**Why your school's support matters**<br><br>Schools play a crucial role in ensuring that students in Year 10 and 11 and their families are aware of the financial support available to them when exploring their options post-16. This is especially important for young carers, who may face additional pressures at home.<br><br>Applications for EMA will open on 27th April 2026 so students can apply before they have received their GCSE results or even if they haven't chosen their course yet.<br><br>By sharing the digital flyer and suggested email attached with parents, you can help ensure that young people who may be eligible for EMA are aware of it and understand how to apply.<br><br>**What we're asking**<br><br>We would be grateful if you could:<br>1. Share the attached digital flyer with parents and carers of your Year 10 and 11 students through your usual communication channels (email, newsletters, school app, etc). For ease, we have provided suggested email copy that you may wish to use. | Annwyl Bennaeth/Rheolwr Busnes yr Ysgol,<br><br>Rydyn ni'n cysylltu â chi i rannu gwybodaeth a thaflen ddigidol am y Lwfans Cynhaliaeth Addysg (LCA), cynllun Llywodraeth Cymru sy'n darparu £40 yr wythnos i helpu i gefnogi myfyrwyr yn eu haddysg.<br><br>Gall y LCA wneud gwahaniaeth go iawn i fyfyrwyr sydd eisiau parhau â'u haddysg yn y chweched dosbarth neu'r coleg. Mae'n helpu gyda chostau hanfodol fel teithio, bwyd, deunyddiau astudio, a threuliau o ddydd i ddydd sy'n cefnogi eu haddysg bellach.<br><br>Gall myfyriwr fod yn gymwys i gael y LCA os yw'n 16 i 18 oed, yn byw yng Nghymru, yn astudio yn yr ysgol neu'r coleg, ac yn bodloni meini prawf incwm yr aelwyd.<br><br>**Pam mae cefnogaeth eich ysgol yn bwysig**<br><br>Mae ysgolion yn chwarae rhan hanfodol drwy sicrhau bod myfyrwyr ym Mlwyddyn 10 ac 11 a'u teuluoedd yn ymwybodol o'r cymorth ariannol sydd ar gael iddyn nhw wrth archwilio eu dewisiadau ôl-16. Mae hyn yn arbennig o bwysig i ofalwyr ifanc, a allai wynebu pwysau ychwanegol gartref.<br><br>Bydd ceisiadau am y LCA yn agor ar 27 Ebrill 2026 fel y gall myfyrwyr wneud cais cyn iddyn nhw dderbyn eu canlyniadau TGAU neu hyd yn oed os nad ydyn nhw wedi dewis eu cwrs eto.<br><br>Trwy rannu'r daflen ddigidol a'r e-bost a awgrymir sydd ynghlwm gyda rhieni, gallwch helpu i sicrhau bod pobl ifanc a allai fod yn gymwys i gael y LCA yn ymwybodol ohono ac yn deall sut i wneud cais.<br><br>**Yr hyn rydyn ni'n ei ofyn**<br><br>Byddem yn ddiolchgar pe gallech wneud y canlynol:<br>1. Rhannu'r daflen ddigidol ynghlwm gyda rhieni a gofalwyr eich myfyrwyr Blwyddyn 10 ac 11 trwy'ch sianeli cyfathrebu arferol (e-bost, cylchlythyrau, ap yr ysgol, ac ati). Er |

2. Encourage staff who work closely with Year 10 and 11 students who may be eligible for EMA in the future to proactively highlight the financial support that could be available to them. This includes young carers and those who are eligible for free school meals.

Your support will help ensure that young people can access the financial help they may need to support their educational goals.

---

**Suggested email copy:**

**Subject:** Your child may be eligible for £40 per week to support their future studies

Dear Parent/Carer,

As your child begins exploring their options for life after Year 11, we want to make you aware of the Education Maintenance Allowance (EMA). This is a Welsh Government payment of £40 per week paid directly to eligible 16-18-year-olds living in Wales and studying at sixth form or college.

We are sharing this information now because financial support can play an important role in helping young people decide which post-16 pathway is right for them, including whether to continue into sixth form or college. EMA is designed to help with the everyday costs of staying in education, such as:

- Travel to and from school or college
- Food and lunches
- Study essentials like stationery, equipment or materials
- Everyday costs that support learning

It's important to note that if your child receives EMA, this will not affect any benefits paid to your household. This includes Child Benefit, Tax Credits, Universal Credit and Employment and Support Allowance.

Applications for EMA will open on 27th April 2026 so students can apply before they have received their GCSE results or even if they haven't chosen their course yet.

hwylustod, rydyn ni wedi darparu copi o neges e-bost bosib y gallech ei defnyddio.

2. Annog staff sy'n gweithio'n agos gyda myfyrwyr Blwyddyn 10 ac 11 a allai fod yn gymwys i dderbyn y LCA yn y dyfodol i dynnu sylw at y cymorth ariannol a allai fod ar gael iddyn nhw. Mae hyn yn cynnwys gofalwyr ifanc a'r rhai sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim.

Bydd eich cefnogaeth yn helpu i sicrhau y gall pobl ifanc gael mynediad at yr help ariannol y gallai fod ei angen arnyn nhw i gefnogi eu nodau addysgol.

---

**Copi o e-bost a awgrymir:**

**Pwnc:** Gallai'ch plentyn fod yn gymwys i gael £40 yr wythnos i gefnogi ei astudiaethau yn y dyfodol

Annwyl Riant/Gofalwr,

Wrth i'ch plentyn ddechrau archwilio ei opsiynau ar gyfer bywyd ar ôl Blwyddyn 11, rydyn ni am eich gwneud chi'n ymwybodol o'r Lwfans Cynhaliaeth Addysg (LCA). Taliad o £40 yr wythnos gan Lywodraeth Cymru yw hwn, sy'n cael ei dalu'n uniongyrchol i bobl ifanc 16-18 oed cymwys sy'n byw yng Nghymru ac sy'n astudio yn y chweched dosbarth neu mewn coleg.

Rydyn ni'n rhannu'r wybodaeth hon nawr oherwydd gall cymorth ariannol chwarae rhan bwysig wrth helpu pobl ifanc i benderfynu pa lwybr ôl-16 sy'n iawn iddyn nhw, gan gynnwys a ddylen nhw barhau i'r chweched dosbarth neu'r coleg. Mae'r LCA wedi'i gynllunio i helpu gyda chostau dyddiol aros mewn addysg, megis:

- Teithio i'r ysgol neu'r coleg ac oddi yno
- Bwyd a chinio
- Hanfodion astudio fel deunydd ysgrifennu, offer neu ddeunyddiau
- Costau bob dydd sy'n cefnogi dysgu

Mae'n bwysig nodi, os yw'ch plentyn yn derbyn y LCA, na fydd hyn yn effeithio ar unrhyw fudd-daliadau a delir i'ch cartref.

**EMA – School letter / parent email**

| | |
|---|---|
| The accompanying digital flyer has more information on EMA including the eligibility criteria and how to apply.<br><br>If you have any questions or would like support, please visit https://www.gov.wales/cymru-student-support.<br><br>Kind regards, | Mae hyn yn cynnwys y Budd-dal Plant, Credydau Treth, Credyd Cynhwysol a Lwfans Cyflogaeth a Chymorth.<br><br>Bydd ceisiadau am y LCA yn agor ar 27 Ebrill 2026 fel y gall myfyrwyr wneud cais cyn iddyn nhw dderbyn eu canlyniadau TGAU neu hyd yn oed os nad ydyn nhw wedi dewis eu cwrs eto.<br><br>Mae'r daflen ddigidol amgaeedig yn cynnwys rhagor o wybodaeth am y LCA, gan gynnwys y meini prawf cymhwystra a sut i wneud cais.<br><br>Os oes gennych chi unrhyw gwestiynau neu os hoffech chi gael cefnogaeth, ewch i https://www.llyw.cymru/cymorth-myfyrwyr-cymru.<br><br>Yn gywir, |